# Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-garth Rhifyn Haf 2011

**Cofiwch mai bob yn ail Sul ag Efail Isaf y bydd oedfaon mis Awst. Mae'r manylion ar dudalen 2.**



**Anna Fflur Tilsley, ar fraich ei mam, yn cael cwmni rhai o blant Bethlehem ar fore ei bedydd, Mehefin 12. Mae'r teulu, Haf a Rhodrl a'r brawd hŷn, Garmon, yn byw yn Radur. Croeso mawr, Anna Fflur!**

# GWIBDAITH I ABERGLASNE

Wele'n cychwyn dair ar ddeg o ferched hardd ar fore teg ym mis Mai. Dydd Mercher, y 10fed o Fai, aeth criw o ferched y Capel ar eu gwibdaith flynyddol i Erddi Aberglasne a thref Llandeilo. ***(llun chwith isod)***
Am chwarter wedi deg, cawsom goffi yn Aberglasne. Hen blasty ydy Aberglasne tua dwy filltir i'r gogledd o Gastell Dryslwyn ger yr afon Tywi. Cawsom gyfle i edrych o gwmpas y plasty a'r gerddi hyfryd. Roedd Azaleas ac amrywiol lwyni hyfryd yno. Siomwyd ni fod yr holl fathau rhyfeddol o Degeirian (Orchids) arferai flodeuo yn y Ninfarium, wedi gwywo yn ystod y gaeaf caled, oherwydd diffyg ar y gwresogydd.
Ar ôl ymweld â'r Gerddi a phrynu planhigion, aethom i fyny Dyffryn Tywi, a chroesi'r hen bont enwog i ganol tref Llandeilo. Cinio yn y Cawdor Arms - hyfryd dros ben a phawb wedi mwynhau. Cyfle wedyn i fynd o gwmpas siopau'r dre. Aeth rhai i weld yr Eglwys hynafol, ond siom eto, nad oedd modd cael cip ar ddelweddau digidol o 'Llyfr Efengylau Llandeilo'. Roedd trydanwr yn gweithio yn y `stafell! Falle cawn daith cyn hir i Gaerlwytgoed (Lichfield) lle mae'r trysor hwn o'r nawfed ganrif yn cael ei gadw ers yr unfed ganrif ar ddeg. Mae'r llyfr yn cynnwys yr enghreifftiau cynharaf o Gymraeg ysgrifenedig.
Erbyn chwarter i bedwar roedd yn amser troi am adre. Pawb wedi cael diwrnod hwylus a chyrraedd yn ôl yn ddiogel i Radur ychydig wedi pump. Diolch i Dafydd am ein cludo'n ddiogel. Trosglwyddwyd elw sylweddol o'r daith i gronfa Elusen Bethlehem, 'Yr Ystafell Fyw'.

***Elen Lewis***



## Rhyw aur neu ddau !

Mae Rhiannon a minnau'n gwerthfawrogi'n fawr y rhoddion hyfryd i nodi'n priodas aur a'r gwmnïaeth braf wedi'r oedfa ar Orffennaf 10fed.
Tymor cynhaeaf yw tymor yr haf; tymor cywain i ysguboriau. Fe fydd y ffermwr wedi paratoi'r tir ar gyfer hau a medi. Fe fydd y garddwr wedi plannu, chwynnu a dyfrhau er mwyn gweld y planhigion, y blodau a'r llysiau yn dwyn ffrwyth. Gobeithio i ni wneud hynny yn ein bywyd ysbrydol hefyd. Ond cofiwn y rhybudd "nid yw'r plannwr yn ddim, na'r dyfrhawr, ond Duw, rhoddwr y tyfiant."
Ble bynnag y byddwch chi o hyn hyd Fedi, gobeithio y cewch chi haul i hamddena gan ddychwelyd i Fethlehem yn barod am dymor da o waith.
"Y gŵr na fyn seguryd
Biau'r aur sydd yn yr ŷd."

***R Alun***

## Er cof am Dr Dafydd Huws

Un â'r wên fel arweinydd – â'i heniaith
llawn ynni o'r newydd,
Trwy'i freuddwydion aflonydd
Cardi oedd yn cario'r dydd.

*Geraint Roberts*

*(Mae teyrnged R. Alun i Dafydd ar dudalen 3.)*

## Cyfeiriadau:

**Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,**
***Ffôn:*** 02920 520 854 ***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net
**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39 , ***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk

## Trefn Suliau Bethlehem

**AWST**
7. Oedfa yn Efail Isaf (Cymun) 10.45
14. Oedfa ym Methlehem 10.30
21. Oedfa yn Efail Isaf 10.45
28. Oedfa ym Methlehem 10.30

**MEDI**
4. Y Parchg. Milton Jenkins
11. Y Parchg. R. Alun Evans
18. Y Parchg. Allan Pickard
25. Y Parchg. R. Alun Evans

**HYDREF**
2. Gwasanaeth Ardal : Pentyrch
9. Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
16. Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant
23. Y Parchg. R. Alun Evans
30. Y Parchg. Dafydd Owen

TACHWEDD
6. Y Parchg. Cynwil Williams
13. Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
20. Y Parchg. Jeff Williams
27. Y Parchg. R. Alun Evans

RHAGFYR
4. Ymweld â Chartre'r Henoed (bore)
Gwasanaeth 9 Llith a Charol (nos)
11. Bore, Ymarfer yr Ysgol Sul..
Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun, 5pm)
18. Gwasanaeth Nadolig y Plant
25. Y Parchg. R. Alun Evans

# Llongyfarchiadau!

- Gruffydd John, Llysfaen, wedi cael gradd mewn Physeg o Brifysgol Caerdydd.
- Caryl Griffiths, Creigiau, wedi cael swydd fel athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Allta, Ystrad Mynach.
- Sioned Davies Scott, Meisgyn, wedi cael "internship" â chwmni BMW i weithio â'r adran sy'n dylunio'r cerbyd Mini.
- Sianed King, Llandaf, wedi cael gradd ychwanegol o Goleg Deintyddol Caerdydd.
- Manon Mathias, Yr Eglwys Newydd, wedi ei phenodi'n Ddarlithydd mewn Ffrangeg i Goleg Cenedlaethol Cymru ym Mangor.
- Ceri a Muir ar eu priodaas ym Methlehem ar Feh 18 - Ceri Ann Jenkins a Muir Michael Phillip Lowry sy'n byw yng Ngwaelod-y-garth.
- Anna Glyn, Pentyrch, ar ddod yn Ohebydd y Cynulliad i'r Cylchgrawn Golwg

## O'r ysbyty

Da deall bod Dave Lewis, priod Gwyneth Lewis, Pentyrch, wedi dychwelyd o'r ysbyty. Anfonwn ein cofion ato.

## Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r teuluoedd canlynol:

**Marian a Dilwyn Jones**, Creigiau – bu farw mam Marian, Mrs Nancy Evans a bu'r angladd yng Nghefnblodwel ger Croesoswallt.

**Cerith ac Eirlys Davies,** Pentyrch – collodd Cerith ei frawd Dewi, yng Nghwmllynfell – a bu'r angladd yn Nhreforus.

**Rhys a Sheila Dafis**, Creigiau gynt – Rhys (ein cyn ysgrifennydd) wedi colli ei fam, Mrs Morfudd Owen Davies. Bu'r angladd yn Llansannan.

**Iwan ac Esme Griffiths**, Creigiau - Bu angladd mam Iwan, - Mrs Jennie Griffiths - yn Amlosgfa Parc Gwyn Arberth.

**Rhian, Gwenan, Aled, Elen, Carys a Geraint** – mae teyrnged i Dr Dafydd Huws ar y dudalen gyferbyn.

## *ELUSENNAU*

*Mae Bethlehem wedi anfon £1500 ar unwaith i gronfa argyfwng Dwyrain Affrica. Pan fydd apêl o'r fath yn cael ei lansio, arfer Bethlehem ydi anfon siec yn syth – drwy Gymorth Cristnogol – a chasglu'r arian yn ddiweddarach drwy roddion a gweithgareddau. Anfonwch eich cyfraniad at y trysoryddion – Pwt neu Eurfryn. Gyda llaw, cyfanswm casgliad Bethlehem at gronfa Bangla-Cymru (elusen leol y flwyddyn cynt) oedd £4833.29.*

***Croeso i'r babis newydd!***

**Dyma nhw:**

- **Enfys**, merch i Branwen a'i gwr Paul Biggs, chwaer i Ffion a Mabli.
- **Lilith** – merch Kate (merch Brian a Enid, Creigiau) a Lee - a chwaer i George

## Y GYMANFA GANU

Bydd rhaid aros tan bnawn Sul, 20 Tachwedd i gael y pleser o glywed lleisiau Bethlehem ar Ganiadaeth y Cysegr, Radio Cymru. Felly, cofiwch nodi'r dyddiad ar eich calendr yn barod. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r achlysur, gan ddiolch yn arbennig i'r dynion - er yn brin o nifer, yn hynod effeithiol eu sain.

Rhaglen o'r hen ffefrynnau oedd gennym gan fod y rhestr emynau'n cynnwys yn bennaf yr emynau a enwebwyd gan yr aelodau. Aeth Peter a Gwawr ati i greu rhaglen amrywiol a chafwyd eitem gan y plant a chan ein triawd sefydlog - Marged, Catherine a Ieuan. Llywiwyd y cyfan gan Alun, gyda Sioned a Gwenllian yn cyfrannu at y rhannau arweiniol. Diolch iddynt i gyd am fod mor barod eu cymwynas ac i Gwawr am ei harweiniad meistrolgar.

Roedd yn gyfle i ni fel cantorion glywed sain yr organ ar y galeri, ac efallai y dylem achub ar y cyfle hwn i ddiolch o galon i Peter am ei holl ymdrechion ynglyn â'r organ newydd, sydd bellach wedi ymgartrefu yn ein plith fel hen ffrind.

Does ond gobeithio nawr fod y recordio wedi gwneud cyfiawnder â'r canu!!!

***DELYTH EVANS***

# DAFYDD HUWS, Ffwrnes Blwm

(teyrnged y gweinidog iddo yn ei angladd yng Nghapel Y Garn, Bow St, Gorffennaf 9fed, 2011)



Y Genôm

Pwy ŵyr byth pa ryw bethau
hynod gawn wedi eu gwau
yn nhrofau'n genynau ni?
Ond yna, 'r gwir amdani -
Duw a wnaeth ein DNA,
a mae yno'n ein meinwe.
Oherwydd nyddwyd geiriau
hen y creu drwy'n deunydd crai;
eu hawdur ydyw'r Duwdod,
Bardd holl fesurau ein bod.
Gallwn weld 'ny memrwn hen
Rywfaint O'i lawysgrifen.

*(Dafydd Huws)*

Cywydd a gyfansoddodd Dafydd i'r Talwrn ddeng mlynedd yn ôl yw hwn'na. A dyna roi iddo'r gair cynta. Hwyrach y caiff o'r gair ola hefyd. Nid angladd ond Cyfarfod Dathlu oedd ei ddymuniad; pawb yn mwynhau. "Peidiwch meddwl mai'r corff yn y bocs 'na ydi'r person. Dilledyn wedi ei ddiosg am y tro ola' ydi hwn'na ... Trïwch feddwl am y person yn eich presennol chi" oedd ei anogaeth. Ac fe gawsoch chi fel teulu, wrth hel atgofion, y Dafydd iach a direidus yn ôl.

"Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd da yw, ac y mae ei ffyddlondeb dros byth. ....Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac fe'th gynnal di."

Daethom ynghyd i addoli Duw, ac i roi diolch iddo am fywyd Dafydd gan wybod y bydd yr un a'i rhoddodd yn ein cysuro yn ein galar. Tystiwn i atgyfodiad yr Arglwydd Iesu a gobaith y bywyd tragwyddol. Bydded gras Duw gyda ni oll.

Deulu annwyl, derbyniwch ein cydymdeimlad diffuant.

Mae Rhian yn cofio rhywun yn dweud wrth Dafydd yn angladd ei dad, bron hanner canrif yn ôl "Fydd eich tad byth farw tra byddwch chi byw." "Dwi'n gobeithio", meddai Rhian, "y bydd yr un peth yn wir am ein plant ni. Maen nhw'n sicr yn coleddu'r un syniadau, credoau ac agweddau at fywyd â'u tad, gan eu bod wedi bod cymaint yn ei gwmni ac wedi siarad cymaint gydag o tros y blynyddoedd."

Dyma grynodeb o nodweddion eu tad gan Aled, Gwenan, Elen, Carys a Geraint - un carismatig, un yn gadael argraff ar bawb y byddai'n eu cyfarfod; brwdfrydig, byrlymus, llawn egni; un ysbrydoledig.

Yn Gardi yng ngwir ystyr y gair; un na fyddai'n taflu dim ymaith ond yn ail-gylchu ac ail-ddefnyddio; wrth ei fodd yn cael bargen ail-law. Un â chalon fawr ganddo. Meddai, eto ar y Talwrn tra'n cynrychioli tîm y Dwrlyn:

Elwa neb o galon wan,
y dewr sydd yn gwneud arian.

Polymath o amaethwr a dyn busnes, seiciatrydd, gwleidydd, gwlatgarwr a chenedlaetholwr.

Cwpled caeth ar yr odl 'ach' oedd y dasg a osododd y Meuryn a Dafydd yn ymateb:

Mae eisiau nerth grymusach
Na'r Senedd fedd Gymru fach.

Rhoddodd canlyniad positif y refferendwm ar bwerau pellach i ddeddfu hwb iddo yn ei wendid. Yn ymddiddori ym myd natur, amaeth; materion cyfoes, diwylliant a barddoniaeth Gymraeg; diwinyddiaeth a byd capel. A thrwy'r cwbl yn "beiriannydd rhwystredig" ( peiriannydd oedd e eisiau bod yn grwt, *aero-engineer*) - wrth ei fodd yn ddiweddarach yn gweithio ar y peiriannau yn Ffwrnes Blwm neu ar y fferm ar Fynydd Gorddu.

Roedd hyn yn gwbl gyson â'i feddylfryd cynaladwy - nid yn unig ym myd ynni ond hefyd yn ei agwedd at barhad iaith a diwylliant.

Ei eni yn Aberystwyth. Ei fagu'n blentyn bach yn Ne Affrica ger Llyn Victoria, lle dechreuodd ei dad ddysgu iddo werthoedd cymdeithasol yn ei ymwneud â'r brodorion cyn dychwelyd i Gymru i fyw oherwydd yr Ail Ryfel Byd. Ai dyna sut y daeth 'Nkosi Sikelele' i *repertoire* caneuon gwersyll yr Urdd? Gwelwyd enghraifft o'i ddireidi a'i synnwyr digrifwch pan ddwedodd wrth Beti George mai i Adolph Hitler yr oedd y diolch ei fod yn siarad Cymraeg.

Meddai'r plant eto - roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn pobol ac yn mwynhau eu cwmni. Byddai'n stopio i siarad efo pawb, ond byth yn stopio siarad! Yn hoff o ddweud jôcs gan chwerthin yn harti ar ei jôcs ei hun. Rhian sy'n nodi ei fod o'n berson eitha diymhongar. Os byddai rhywun yn dweud wrtho iddyn nhw ei weld ar deledu neu ei glywed ar y radio ei ymateb fyddai:

"Maen nhw'n gofyn i mi ar ddau achlysur yn unig - pan maen nhw'n brin ... a phan maen nhw'n uffernol o brin." Doedd o ddim yn hoffi cael ei alw'n Ddoctor chwaith. Ei ymateb fyddai "Peidiwch a ngalw i'n ddoctor neu fyddai'n anfon bil atoch chi"!

Tros y blynyddoedd, fodd bynnag, fe roddodd gyngor call i lu o bobol, gan gynnwys ei deulu yn ôl y galw a bod yn gefn i'w gyfeillion. Bu'n gefn i'w Weinidog hefyd. Gwelai'r gorau ym mhawb. Prin y dwedai air cas am unrhywun gan gynnwys ei wrthwynebwyr gwleidyddol. Yn hyderus yn ei allu meddyliol; yn graff, galluog, yn hael ei amser a'i adnoddau; un a chanddo ymdeimlad cryf o ddyletswydd. Un dewr a safai'n gadarn dros ei egwyddorion mewn capel ac mewn cymdeithas.

Rhagrithiwr

Sefyll dros degwch a chydraddoldeb
Tra'n gwarchod yn gyntaf ei hunanoldeb,
Mewn cerbyd drud mynycha'i oedfaon
A'i haelioni sbâr at y ffeiriau sborion,
Mynnu troi llyfrau ei grefydd yn arfau
Tra'n honni byw yr hyn sydd rhwng eu cloriau.
Dyn sy'n gwneud rhigwm am ragrith ymhobman
Ond am y trawst sy'n ei lygad ei hunan!

*Dafydd Huws*

Roedd ei egwyddorion Cristnogol yn bwysig iddo. Yn ei dyb ef roedd chwilio am y gwirionedd yn bwysicach na chredu mewn athrawiaeth.

Symlrwydd neges Iesu nid cymhlethdod eglwys sy'n arddel ei enw oedd yr hanfod. Yn Undodwr (Un Duw sydd), yn aelod yma yn Y Garn gyda'r Presbyteriaid, yn mynychu capel cynulleidfaol yn ffyddlon (mae ei farw yn ergyd i'r teulu ym Methlehem, Gwaelod-y-garth) fe gredai Dafydd mai'r Crynwyr oedd agosaf at ddysgeidiaeth Iesu. Ym myd meddygaeth a chrefydd fe welai y gallu i wadu yn hytrach nag i wynebu yn rhwystr i ymwybyddiaeth pobol. Fe wynebodd ei farwolaeth gydag onestrwydd anghyffredin

Dyma un oedd yn teimlo pethau i'r byw, yn emosiynol felly meddai'r plant yn ei gariad at ei wlad ac at ei Arglwydd.

Doedd Dafydd byth yn "bored." Sarhad ar Dduw oedd hynny yn ei olwg o ystyried rhyfeddodau natur a'r bydysawd y mae Duw wedi ei roi i ni i ryfeddu atyn nhw:

Duw yw enw'r daioni - sydd ynom
  sy'n drech na drygioni;
Y rhosyn yn y drysi,
Y rhaid yn ein henaid ni.

Wedi ei faldodi'n llwyr gan ei fam a'i chwiorydd fe welai'r teulu drwy'r esgus o *siofinistiaeth* at yr addfwynder a'r agosatrwydd a'r arweiniad diamod i'w deulu. Pa ryfedd mai ei ddymuniad oedd bod adre ar derfyn y daith.

Do, Rhian, fe gafodd Dafydd fywyd llawn, hapus a diddorol. Fe fuoch chithe yn wyrth o wraig. A fydde hynny chwaith ddim wedi bod yn bosib heb y plant a'r teulu cyfan a rannodd yn y gofal. Fe allai Dafydd ddweud ar ddiwedd ei oes, fel y dywedodd ar ddydd ei briodas, gan ddyfynnu cerdd T. H. Parry-Williams 'I'm Hynafiaid':

"A dyna pam, gan gymaint a roed im,
Nad ydwyf yn dyheu am odid ddim."







# Haf o briodasau pell ac agos - ac un Aur!








*(O'r gongl chwith uchaf – a rownd y cloc)* Priodas **Caryl Myrddin Pollard** (Radur) â **Mark Eldrige** ym Methlehem ar Fai 28. Yna, **Ywain Derfel ap Rhys** (Creigiau gynt) a **Fiona Isabel Bargery** briodwyd ar Fehefin 11 yn Eglwys St. John the Baptist, Boldre, yn y New Forest. Yn Efrog Newydd y bu priodas **Esyllt Davies** (Radur) â **Richard Green** ar Fai 2 – yng Nghapel All Souls. Yn Eglwys y Waun, Waunfawr, ger Caernarfon y priodwyd **Hywel Roberts** (Pentyrch) ag **Elin Wyn Evans** ar Fehefin 25.

Dymunwn yn dda i'r pedwar cwpl ar gychwyn eu bywyd priodasol.

Mae'r ddau nesa wedi cael hanner can mlynedd o gwmni ei gilydd! Eleni, mae **Rhiannon ac R Alun Evans** yn dathlu eu priodas aur. Fe'u priodwyd nhw yn Elim, Llanddeiniol, Ceredigon ar Orffennaf 29, 1961 ac fe drefnodd Bethlehem ddathliad cynnar ar ddiwedd yr oedfa ddechrau'r mis – teisen o waith Luned Davies Scott, dewis Eirlys Davies o goeden rosod "Golden Celebration" a'r sampler uchod, o waith Marian Ifans. (Mae yna lyfr bwrdd coffi o Lynnoedd Eryri ar ei ffordd hefyd – ond heb ddod o'r wasg!) Llongyfarchiadau calonnog i'r ddau!

Cor Y Mochyn Du (dan arweiniad Marian Ifans) fu'n cynnal y cyngerdd blynyddol ar 20 Mai, ynghyd â disgyblion Ysgol Gwaelod-y-garth. Diolch i Tania ac Iwan, hwythau am eu gwaith gyda'r plant. Roedd yr elw'n mynd tuag at ein helusen – Yr Ystafell Fyw.

